

**Julie James AS/MS**  
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**  
**Minister for Climate Change**



**Llywodraeth Cymru**  
**Welsh Government**

Huw Irranca-Davies AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad

28 Medi 2021

Annwyl Huw,

Diolch am eich adroddiad dyddiedig 23 Medi am y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Amgylchedd y DU.

Rwy'n falch o fedru darparu'r wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani.

Yn gywir

A handwritten signature in blue ink that reads "Julie James". The signature is written in a cursive, flowing style.

**Julie James AS/MS**  
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**  
**Minister for Climate Change**

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.James@gov.Wales](mailto:Correspondence.Julie.James@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Argymhelliad	Ymateb
<p><b>Argymhelliad 1.</b> Dylai Bil amgylcheddol a gyflwynir gan y Gweinidog yn y dyfodol ymdrin â materion datganoledig a geir ym Mil yr Amgylchedd Llywodraeth y DU, yn dilyn ymgynghoriad priodol â rhanddeiliaid.</p>	<p><b>Derbyn mewn Egwyddor</b></p> <p>Mae mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon.</p> <p>Amlinellodd y Cwnsler Cyffredinol ein rhaglen ddeddfwriaethol uchelgeisiol ar gyfer y flwyddyn gyntaf ar 6 Gorffennaf a bydd y Prif Weinidog yn gwneud cyhoeddiad maes o law am y rhaglen ddeddfwriaethol ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod.</p> <p><b>Goblygiadau Ariannol</b> – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i ymateb i'r argymhelliad hwn.</p>
<p><b>Argymhelliad 2.</b> Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am i'r Bil gael ei ddiwygio er mwyn dileu'r pwerau gwneud rheoliadau cydredol plws.</p>	<p><b>Gwrthod</b></p> <p>Rwyf wedi rhoi esboniad manwl i'r Pwyllgor ynglŷn â phriodoldeb cymryd pwerau cydredol plws yn y Bil hwn. Dim ond mewn meysydd lle y gallai fod angen mabwysiadu'r un dull gweithredu ledled y DU yr ydym yn cymryd y pwerau hyn.</p> <p>Bydd cynnwys yr eithriad o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn sicrhau y bydd y Senedd yn gallu dileu swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â materion sydd wedi'u datganoli i Gymru heb fod angen cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol.</p> <p>Rwyf wedi ymrwmo i wneud rheoliadau yn y Senedd pryd bynnag y bo modd ac wedi dangos yr ymrwymiad hwnnw drwy gynllunio i gyflwyno deddfwriaeth i Gymru mewn perthynas â'r cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr dros ddeunydd pacio a Chynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd.</p> <p><b>Goblygiadau Ariannol</b> – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i ymateb i'r argymhelliad hwn.</p>
<p><b>Argymhelliad 3.</b> Os na dderbynnir argymhelliad 2, neu os na chaiff y Bil ei ddiwygio i ddileu'r pwerau cydredol plws, rhaid i'r Gweinidog esbonio'r rhesymau dros beidio â dileu'r pwerau a chadarnhau:</p>	<p><b>Derbyn mewn egwyddor</b></p> <p>Fel uchod, rwyf eisoes wedi nodi rhesymau manwl dros briodoldeb cymryd pwerau cydredol plws yn y Bil hwn.</p>

<ul style="list-style-type: none"> <li>- yr amgylchiadau a'r amserlen benodol ar gyfer defnyddio pwerau cydredol plws;</li> <li>- pryd y mae'n disgwyl i'r pwerau cydredol plws gael eu dileu o'r Bil yn unol ag egwyddor 7 yng nghanllaw Llywodraeth Cymru y cyfeirir ato ym mharagraff 35 uchod.</li> </ul>	<p>Bydd y pwerau cydredol plws yn cael eu defnyddio i'r graddau y bydd eu hangen er mwyn cyflawni nod polisi penodol. Dim ond os bydd hynny'n gwbl angenrheidiol y byddwn yn rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol ddeddfu ar ein rhan. Ym mhob achos, byddwn yn ystyried y potensial i gyflawni canlyniadau drwy gyflwyno rheoliadau gerbron y Senedd yn y lle cyntaf.</p> <p>Mae natur y pwerau a geisir yn golygu nad oes amserlen glir ar gyfer pryd y cânt eu defnyddio. Rydym wrthi'n gwneud gwaith datblygu polisi ar amrywiaeth o gynhyrchion ly gellid defnyddio Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar eu cyfer, gan gynnwys deunydd pacio a chynllun dychwelyd blaendal ar gyfer cynwysyddion diodydd. Wrth i gynlluniau'r dyfodol gael eu datblygu, byddwn yn ystyried pa ddull deddfwriaethol i'w fabwysiadu, gan ystyried yn benodol yr agweddau ymarferol ar sut y caiff cynhyrchion penodol eu marchnata a'u masnachu ledled y DU a Chymru.</p> <p>O ran ansawdd dŵr, byddwn yn gweithredu yn ôl yr angen os bydd gofyn rheoleiddio'n drawsffiniol mewn perthynas ag afonydd Hafren, Gwy a Dyfrdwy.</p> <p>O ran REACH, bydd pwerau cydredol plws yn cael eu defnyddio pan fydd angen newid y trefniadau gorfodi ar gyfer cemegion mewn ffordd na ellir ei chyflawni drwy bwerau Cymru yn unig neu os bydd rheoleiddio ar y cyd yn fwy effeithlon. Mae hyn yn ailsefydlu'r pwerau a oedd gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â phwerau gorfodi REACH cyn i'r DU Ymadael â'r UE.</p> <p>Yn unol â'r canllawiau, byddaf yn mynd ati'n rheolaidd i ystyried yr angen am y swyddogaethau cydredol plws hyn.</p> <p><b>Goblygiadau Ariannol</b> – Os gwelir ar ôl adolygu'r sefyllfa y bydd angen dileu unrhyw swyddogaethau cydredol plws, bydd angen adnoddau polisi a chyfreithiol i wneud unrhyw newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol.</p>
<p><b>Argymhelliad 4.</b> Cyn y ddadl yn y Senedd ar y cynnig cydsyniad perthnasol, dylai'r Gweinidog esbonio pam nad yw'r</p>	<p><b>Derbyn</b></p>

darpariaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff 51 o'r adroddiad hwn wedi eu nodi ym Memorandwm Rhif 2, a dylai gadarnhau bod angen cydsyniad y Senedd i'w cynnwys yn y Bil.

Cyfeiriwyd at Gymal 137 newydd (Diwygiadau i Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) (cymal 144 erbyn hyn) ym Memorandwm 1 er mwyn sicrhau bod yr Aelodau'n ymwybodol o'r cynnig i'w gynnwys yn y Bil. Fodd bynnag, nid ystyriwyd bod angen cydsyniad oherwydd, yn rhinwedd paragraff 7 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, nid yw'r Senedd yn cael gwneud diwygiadau i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Felly, ystyriwyd bod y ddarpariaeth hon y tu allan i gymhwysedd y Senedd.

Yng ngoleuni adroddiad y Pwyllgor, rwyf wedi gofyn i swyddogion ailedrych ar y mater hwn. Gan fod y ddarpariaeth yn dod o dan is-adran 29.1(ii) yn y Rheol Sefydlog, sef ei bod yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, rwy'n cytuno bod angen cydsyniad ac felly dylai'r gwelliant fod wedi'i gynnwys ym Memorandwm 2.

Mae'r diwygiadau i atodlenni 4, 5, 6, 7 ac 11 yn ymwneud â phwerau i'r awdurdod cenedlaethol perthnasol wneud rheoliadau. Nodwyd ym Memorandwm 1 mai Gweinidogion Cymru yw'r Awdurdod Cenedlaethol mewn perthynas â Chymru ac amlinellwyd yr angen am gydsyniad y Senedd ar gyfer y pwerau yn yr Atodlenni hyn. Rwyf o'r farn bod y diwygiadau a ychwanegwyd at y darpariaethau hynny yn dod o dan yn y gofyniad cyffredinol am gydsyniad a amlinellir ym Memorandwm 1. Roedd swyddogion o'r farn bod y diwygiadau i gymal 68 (gorfodi mewn perthynas â sbwriel – cymal 67 gynt) yn ddigon sylweddol i'w cynnwys ym Memoranda 2 oherwydd eu bod yn diwygio'r cymal ei hun ac yn gosod gofynion ychwanegol ar y Senedd.

Mae'r cynnig ar gyfer y Ddadl ar Gydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth a fyddai'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, nid dim ond y rheini sydd wedi'u cynnwys ym Memoranda 1 a 2. Byddaf yn rhoi gwybod i'r Senedd am yr angen i gael cydsyniad ar gyfer Cymal 137 newydd (cymal 144 erbyn hyn) yn fy sylwadau agoriadol i'r ddadl a byddaf yn ei hysbysu hefyd am y diwygiadau i'r atodlenni.

